
CYDBWYLLGOR GwE
21.02.2018

Yn bresennol:

Y Cyngorwyr: Gareth Thomas – Cadeirydd (Cyngor Gwynedd), Phil Wynn – Is Gadeirydd (Cyngor Bwrdeistrefol Siriol Wrecsam), Garffild Lewis (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), a Huw Hilditch-Roberts (Cyngor Sir Ddinbych).

Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais: Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig).

Swyddogion heb bleidlais: Delyth Molyneux (Cyngor Sir Ynys Môn), Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistrefol Conwy), Karen Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), a Garem Jackson (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol: Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Iwan G. Evans (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes GwE), Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhys Howard Hughes (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE), Dafydd Ifans, Llyr Gilmour Jones (Eitem 1 yn unig) a Sioned Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau y Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Meirion Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Rita Price (Esgobaeth Wrecsam), Mair Herbert (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Alison Fisher (Cynrychiolydd Llywodraethwyr), Ian Robert (Cyngor Bwrdeistrefol Wrecsam), Steve Vincent (Llywodraeth Cymru), Gareth Williams (Cadeirydd y Bwrdd Ymgynghorol), a Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYG

Nid oedd unrhyw faterion bryg.

4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 22 Tachwedd 2017, fel rhai cywir.

5. CYFLWYNIAD G6

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Cydbwyllgor o'r system G6, sef system sydd yn galluogi ysgolion i gynnal deialog gyda'i Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant am eu cynnydd drwy fewnbynnu gwybodaeth i mewn i ddangosfwrdd rhanbarthol. Bydd mynediad hefyd ar gael i awdurdodau lleol. Bwriad y system G6 yw trawsnewid y berthynas rhwng GwE ac ysgolion ac i annog cydweithio rhwng ysgolion. Nodwyd bod y sustem eisoes wedi ei dreialu mewn ysgolion yn Sir Ddinbych ac mae'r ymateb iddo wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau'r cydbwyllgor mewn perthynas â:

- Posiblirwydd i osod lefel mynediad gwahanol i'r sustem ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr.
- Mesur dilysrwydd dyfarniad ysgolion wrth iddynt fewnbynnu gwybodaeth.
- Her o ddelio gydag ysgolion sydd mewn categori coch/melyngoch ond ddim eisiau cael eu cyhoeddi.

CYD-BWYLLGOR GWE Dydd Mercher, 21 Chwefror 2018

- Pwyslais bod y sustem yn arf i wella perfformiad nid arf i arfarnu ysgolion.
- Oes gan y 3 consortiwm arall sustem debyg/oes modd ehangu'r sustem i fod yn genedlaethol?

6. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN BUSNES LEFEL 1 – CHWARTER 3

Cyflwynodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE adroddiad monitro perfformiad chwarter 3 ar gyfer Cynllun Busnes Lefel 1. Amlygwyd bod angen edrych ar effaith y gweithredu a bod angen sicrhau bod pawb yn glir o beth yw'r rhesymeg tu ôl i'r blaenoriaethau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau'r cydbwyllgor mewn perthynas â:

- Cwestiynwyd os yw'n ddilys nodi'r elfen arweinyddiaeth yn 'wyrdd' - mae'r gwaith gweithredu yn 'wyrdd' ond nid yw'r deilliannau.
- Angen trefnu cyfarfod cyn i aelodau'r Cabinet gyfarfod gyda'r WLGA ym mis Mawrth.

PENDERFYNWYD: Derbyn yr adroddiad.

7. ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB 2017-18 - CHWARTER 3

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Cyllid yr Awdurdod Lletyol. Nodwyd nad oes newid arwyddocaol yn Adolygiad Chwarter 3.

PENDERFYNWYD: Derbyn yr adroddiad.

8. ADRODDIAD CYLLIDEB SYLFAENOL 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Cyllid yr Awdurdod Lletyol, a nodwyd bod angen i'r cydbwyllgor mabwysiadu'r gyllideb am y flwyddyn sydd i ddod.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, ymatebwyd i gyfres o gwestiynau/sylwadau gan aelodau'r cydbwyllgor mewn perthynas â:

- Pwysigrwyd rheoli'r risg.
- Awgrym i flaenoriaethu unrhyw adnodd cyllidol sydd dros ben i ysgolion sydd yn y categori 'coch'.
- Pwysigrwyd sicrhau gwerth am arian wrth roi rhagor o arian i ysgolion yn y categori 'coch' - nid yw darparu mwy o arian yn golygu bod yr ysgol am wella.

PENDERFYNWYD: Mabwysiadu'r gyllideb.

9. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2017/18 – 2020/21

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Cyllid yr Awdurdod Lletyol. Nodwyd nad oes newid arwyddocaol yn y ffigyrau ac nid oes angen llawer o newid i'r cynllun gweithredu.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r cynllun.

10. COFRESTR RISG

Cyflwynodd Rheolwyr Busnes GwE y gofrestr risg. Nodwyd bod angen i'r cydbwyllgor adolygu cynnwys y gofrestr a'i dderbyn.

PENDERFYNWYD: Derbyn y cofrestr risg.

11. ADRODDIAD Y BWRDD YMGYNGHOROL

Cyflwynwyd adroddiad y Bwrdd Ymgynghorol yn nodi'r trafodaethau a fu yn eu cyfarfod diwethaf. Gofynnwyd i'r Cydbwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

Llongyfarchwyd Aled Evans am ei benodiad mewn rôl arweiniol gyda Llywodraeth Cymru a nodwyd bod Carl Hughes wedi ei benodi fel aelod newydd o'r Bwrdd Ymgynghorol.

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.

12. DYDDIADAU CYFARFODYDD

Cyflwynwyd cais am ddyddiadau i gyfarfod Cydbwyllgor GwE am y flwyddyn.

PENDERFYNWYD: Derbyn y cais.

13. MATERION ERAILL YN CODI

Llongyfarchwyd Jonathan Morgan ar lwyddiant Ysgol y Gogarth arolwg Estyn yn ddiweddar.

Nodwyd y bydd Delyth Molyneux yn ymddeol a diolchwyd iddi am ei hymroddiad a'i chyfraniad.